



Tystysgrif Her Sgiliau

Pam astudio'r Dystysgrif Her Sgiliau?

Prif nod y cymhwyster yw galluogi'r dysgwyr i ddatblygu ac arddangos dealltwriaeth a hyfedredd mewn sgiliau hanfodol a chyflogadwyedd; caiff y myfyrwyr brofiadau sydd yn eu paratoi'n well ar gyfer Addysg Uwch a chyflogaeth. Disgwylir i'r myfyrwyr feithrin saith sgil hanfodol sydd mor bwysig ar gyfer dysgu, gwaith a bywyd, sef Llythrennedd, Rhifedd, Llythrennedd Digidol, Meddwl yn feiriadol a Datrys Problemau, Cynllunio a Threfnu, Creadigedd ac Arloesi ac Effeithiolrwydd Personol.

Gofynion y cwrs

Bydd pob myfyriwr sydd yn dychwelyd i Flwyddyn 12 a 13 yn Ysgol David Hughes yn astudio'r Dystysgrif Her Sgiliau.

Manylion y cwrs a'r dulliau asesu


Bydd y saith sgil yn cael eu hasesu wrth i'r myfyrwyr ymgymryd â phedair her dros gyfnod o ddwy flynedd:

1. Prosiect Unigol (50%)
2. Her Menter a Chyflogadwyedd (20%)
3. Her Dinasyddiaeth Fyd-eang (15%)
4. Her y Gymuned (15%)

Nid oes arholiadau yn y Dystysgrif Her Sgiliau, ond mae tasgau dan reolaeth yn Her y Gymuned a Her Dinasyddiaeth Fyd-eang. Caiff bob myfyriwr gefnogaeth gan diwtor personol a mynediad i ystafell adnoddau er mwyn cwblhau eu gwaith asesu.

"This topic has strengthened me as a person in so many different ways. The skills I've improved or acquired are ones I will use daily in the future. For example I have improved my skill of team working and working independently. I have also learned how to plan methodically and time myself to meet deadlines. Most importantly, a Skills Challenge Certificate has enabled me to gain the confidence and perseverance to do my best in every task."

Ania Moore



"Whilst completing the different tasks of the skills challenges, I have learnt so much which has prepared me for my future education, whilst also gaining many skills that I would not have developed if it were not for this subject. These skills have aided me whilst attending university interviews, and I have seen an immense difference in myself as a person due to these desirable skills."

Lauren Hinchcliffe



Sgiliau a ddatblygir a swyddi posibl

Caiff myfyrwyr gryn ryddid yn y cymhwyster i ddewis elfennau sydd o ddiddordeb personol er mwyn magu profiad ac arbenigedd yn eu maes dewisol nhw. Bwriad y Dystysgrif Her Sgiliau yw paratoi myfyrwyr ar gyfer unrhyw weithle neu gwrs prifysgol gan fod pwyslais mawr ar ddatblygu sgiliau ymchwilio'n annibynnol, gwneud cyswllt â'r gymuned, cydweithio a chyfathrebu'n effeithiol. Mae ein cyn fyfyrwyr yn pwysleisio bod y cwrs wedi magu llawer o hyder ynddynt ac wedi bod yn baratoad gwych ar gyfer cyrsiau prifysgol.

